PARTNERIAETH

CYD-BWYLLGOR ARBENNIG PARTNERIAETH

DYDD GWENER 19EG EBRILL 2024

Cyfarfod Rhithwir : 10:00 am - 10:43 am

CADEIRYDD: Y Cynghorydd Glynog Davies - Aelod Cabinet dros Addysg a'r Gymraeg (Cyngor Sir Caerfyrddin) (aelod â phleidlais)

Aelodau â Phleidlais	
Y Cynghorydd Robert Smith	Aelod Cabinet dros Addysg a Dysgu (Cyngor Sir Abertawe)
Y Cynghorydd Paul Miller (dirprwy)	Dirprwy Arweinydd (Cyngor Sir Penfro)
Y Prif Weithredwr	
Mr Martin Nicholls	Y Prif Weithredwr Arweiniol (Cyngor Sir Abertawe)
Y Cyfarwyddwyr Addysg	
Mr Gareth Morgans	Cyngor Sir Caerfyrddin (Dirprwy Gyfarwyddwr Arweiniol)
Ms Helen Morgan-Rees	Cyngor Dinas a Sir Abertawe (Y Cyfarwyddwr Arweiniol)
Swyddogion	
Mr Jonathan Haswell	Swyddog A151 Partneriaeth (Cyfarwyddwr Adnoddau, Cyngor Sir Penfro)
Ms Linda Rees Jones	Swyddog Monitro (Cyngor Sir Caerfyrddin)
Mrs Sarah Edwards	Dirprwy Swyddog A151 (Cyngor Sir Penfro)
Mrs Michelle Evans-Thomas	Cyngor Sir Caerfyrddin (Gwasanaethau Democrataidd, cymryd nodiadau)
Mrs Siwan Rees	Cyngor Sir Caerfyrddin (Cyfieithu)
Miss Rachel Morris	Cyngor Sir Caerfyrddin (Gwe-ddarlledu)

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Guy Woodham (Cyngor Sir Penfro), William Bramble (Prif Weithredwr, Cyngor Sir Penfro), Wendy Walters (Prif Weithredwr, Cyngor Sir Caerfyrddin), y Cynghorydd David Simpson (Arweinydd, Cyngor Sir Penfro), y Cynghorydd Darren Price (Arweinydd, Cyngor Sir Caerfyrddin) a'r Cynghorydd Rob Stewart (Arweinydd Cyngor Abertawe).

Gofynnodd y Cadeirydd a fyddai modd i ddymuniadau gorau'r Cyd-bwyllgor gael eu mynegi i'r Cynghorydd Woodham am wellhad buan yn dilyn ei gyfnod o salwch yn ddiweddar.

2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

3. UNRHYW FATER ARALL Y DYLID EI YSTYRIED YM MARN Y CADEIRYDD YN FATER BRYS OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau busnes eraill y dylid eu hystyried fel mater o frys.

4. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

5. ADOLYGIAD O SWYDDOGAETHAU A STAFFIO PARTNERIAETH

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 4 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod gan fod budd y cyhoedd o ran cynnal yr eithriad uchod yn bwysicach na budd y cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth sydd yn yr adroddiad hwn, gan y byddai gan ymgeiswyr ddisgwyliad rhesymol na fyddai eu gwybodaeth bersonol yn cael ei datgelu i'r cyhoedd. Nid oedd unrhyw fudd cyhoeddus tra phwysig o ran datgelu gwybodaeth o'r fath.

Rhoddodd y Cyd-bwyllgor ystyriaeth i adroddiad yn amlinellu trefniadau cydweithredu yn y dyfodol ar gyfer gwella ysgolion o fewn Partneriaeth ac yn manylu ar gynnig i ymgynghori ar strwythur staffio yn y dyfodol am gost is i wneud y defnydd mwyaf effeithlon ac effeithiol o adnoddau er mwyn diwallu anghenion presennol ysgolion a'u dysgwyr, ac anghenion sy'n dod i'r amlwg.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL

4.1 bod gwaith ymgynghori â staff Partneriaeth ynghylch strwythur staffio newydd yn dechrau cyn gynted ag y bo modd, a fydd yn cael ei gynnal gan y Grŵp Strategol sy'n cynnwys tri Chyfarwyddwr Addysg a Swyddog Arweiniol Partneriaeth;

4.2 bod cyllideb FY2024-2025 yn seiliedig ar gost o 5/12 ar gyfer y staffio presennol a chost o 7/12 ar gyfer y strwythur newydd, ar ôl ymgynghori.

_____	_____
Y CADEIRYDD	**Y DYDDIAD**